# Cyflwyniad i Ddatganoli

Gwasanaeth Sifil

## **Pryd** i ddefnyddio'r Cyflwyniad hwn

Beth yw datganoli? Beth mae'n ei olygu'n ymarferol? Sut mae pedair llywodraeth y DU yn gweithio ar y cyd? Beth sydd angen i mi ei wybod? Os yw'r rhain yn gwestiynau rydych chi'n holi’n aml, dyma'r canllaw i chi!

Nod y cyflwyniad hwn yw uwchsgilio gweision sifil, waeth eu bod yn gweithio yn Llywodraeth y DU neu yn un o'r gweinyddiaethau datganoledig, o ran strwythurau llywodraethu'r Deyrnas Unedig a sut i ganfod eich ffordd rhyngddyn nhw. Mae'r wybodaeth hon yn elfen hanfodol o frîff pob gwas sifil. Os ydych chi eisoes wedi darllen ein ffeithlen ar ddatganoli a'r trosolwg **ar ffurf cerdyn post o bwerau datganoledig a phwerau a gadwyd yn ôl** ond mae angen gwybodaeth bellach arnoch chi, mae'r Cyflwyniad hwn yn gam nesaf effeithiol. Mae'n enwedig o addas i staff sydd newydd ddechrau.

Mae'n rhan o'r rhaglen **Datganoli a Chi** drawslywodraethol sy'n cynnig dysgu a chymorth ar ddatganoli ar draws y gwasanaeth sifil.

## **Yr hyn sy'n** cael ei gynnwys **yn** y Cyflwyniad hwn

Bydd y Cyflwyniad hwn yn rhoi trosolwg i chi o'r dirwedd ddatganoli bresennol yn y DU a sut i weithredu ynddi. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddosraniad pwerau a chyfrifoldebau ledled y DU, yn ogystal â'r strwythurau ffurfiol sydd ar waith i hwyluso gweithio rhwnglywodraethol cadarnhaol. Bydd tri phroffil ymarferwyr datganoli yn rhoi cyd-destun i lawer o'r manylion a'r cyngor hyn. Yn olaf, mae adran gyfeirio ar y diwedd sy'n cynnwys restr o dermau, canllaw i fyrfoddau, adnoddau pellach a thudalen manylion cyswllt.

## **Sut** i ddefnyddio'r Cyflwyniad hwn

Bydd y canllaw ar ddatganoli cychwynnol hwn yn sbardun i adnoddau eraill ac yn ffynhonnell gyfeirio, fel y bydd gweision sifil yn gwybod at bwy i fynd pan fyddant yn dod ar draws heriau penodol neu gyfleoedd yn y cyd-destun o ddatganoli. Cadwch y canllaw hwn ar eich desg neu'ch bwrdd gwaith, a chyfeiriwch ato'n rheolaidd a'i wneud yn hygyrch i gydweithwyr.

## Beth yw datganoli?


Mae datganoli yn cynnwys trosglwyddo pŵer o un llywodraeth ganolog i weinyddiaeth leol neu ranbarthol. Nid yw datganoli'n beth newydd. Mae datganoli ar wahanol ffurfiau wedi bodoli yn y DU ers degawdau ac mae'n gyffredin mewn rhannau eraill o'r byd. Heddiw, mae'n golygu bod wahanol gyrff deddfwriaethol a llywodraethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, sydd â phwerau dros ystod o feysydd polisi a oedd yn arfer bod yn feysydd Llywodraeth y DU yn unig.

| Corff Deddfwriaethol | Llywodraeth |
| --- | --- |
| Senedd y DU | Llywodraeth y DU |
| Senedd yr Alban | Llywodraeth yr Alban |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Llywodraeth Cymru |
| Cynulliad Gogledd Iwerddon | Gweithrediadaeth Gogledd Iwerddon |

Mae gan bob corff deddfwriaethol ei setliad datganoli unigryw ei hun, ac mae'r setliadau hyn yn cael eu cadarnhau a'u hehangu drwy Ddeddfau Senedd y DU sy'n pennu gallu deddfwriaethol cyrff datganoledig. Hynny yw, y meysydd polisi y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi datblygu system wahanol o ddatganoli yn Lloegr, nad oes ganddi gyrff deddfwriaethol ar wahân.



Cynulliad Gogledd Iwerddon, Belffast





Senedd yr Alban, Caeredin



Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd



Senedd y DU, Llundain

## Pam mae gennym ni ddatganoli?

Mae datganoli wedi bod yn broses sy'n esblygu sydd wedi ymateb i alwadau ymhlith y cyhoedd ac sydd wedi trawsnewid tiredd wleidyddol a chyfansoddiadol y Deyrnas Unedig.

Mae wedi bod yn sbardun i newid democrataidd drwy ddod a'r broses benderfynu'n agosach i bobl ledled y DU. Gall pobl Cymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â'r bobl hynny sy'n cael eu cynrychioli gan feiri metropolitanaidd, gael dylanwad fwyfwy yn y polisïau sy'n cael effaith arnynt.

Mae datganoli hefyd wedi arwain at lunio polisi sy'n gynyddol effeithiol a phwrpasol. Gellir llunio a chyflwyno polisïau sy'n fwy addas i anghenion a blaenoriaethau rhannau unigol y DU. Gall Llywodraeth Cymru gyflwyno polisi amaethyddol sy'n adlewyrchu pwysigrwydd unigryw ffermio da byw i economi Cymru a gall Llywodraeth yr Alban gynnal system addysg sy'n ymateb i dirwedd economaidd-gymdeithasol yr Alban.

Mae datganoli wedi annog arloesedd wrth lunio polisi. Mae cael pedair corff llywodraethol yn y Deyrnas Unedig yn golygu y gall gweinyddiaethau ddysgu o bolisïau sy'n cael eu cyflwyno mewn rhanbarthau eraill a'u hefelychu os ydynt yn credu y byddant yn effeithiol yn eu hawdurdodaethau hwy. Enghraifft o hyn yw penderfyniad Llywodraeth yr Alban i wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus dan do yn 2006. Gan yr ystyriwyd y bu'n llwyddiant, cafodd ei efelychu yng Nghymru, yng Ngogledd Iwerddon ac yn Lloegr.

# Datganoli ledled y DU

## Lloegr

### Hanes
Dechreuodd cam presennol datganoli yn Lloegr gyda Chytundeb Manceinion Fwyaf yn 2014, a oedd yn cynrychioli'r 'fargen ddatganoli' gyntaf i roi pwerau a chyllid i Awdurdodau Cyfunedig. Mae bargeinion pellach wedi dilyn fesul achos ar sail unigol, yn lle ymagwedd unffurf i bawb ledled y wlad gyfan.

### Meiri
Mae meiri sy'n cael eu hethol yn uniongyrchol, sydd yn aml yn un o'r Meiri Metropolitanaidd newydd eu hethol, yn cynrychioli rhanbarthau amrywiol o Loegr: Swydd Gaergrawnt a Peterborough, Manceinion Fwyaf, Rhanbarth Dinas Sheffield, Rhanbarth Dinas Lerpwl, Dyffryn Tees, Gorllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

### Cylch gorchwyl
Mae gan bob awdurdod cyfunedig gylch gorchwyl sy'n amrywio o ran maint a chwmpas. Hyd yn hyn, mae pwerau cyffredinol bargeinion datganoli maerol y cynnwys: cyllid buddsoddi ychwanegol gwerth rhwng £15m a £36.5m bob blwyddyn am 30 mlynedd; cyllidebau trafnidiaeth aml-flwyddyn datganoledig; mae rhai yn cynnwys cynllunio strategol a phwerau dros dai; cyllido cyllidebau addysg i oedolion datganoledig; a mwy o ddylanwad lleol o ran cymorth â chyflogaeth.

### Cynulliad Llundain
Mae Cynulliad Llundain yn dyddio'n ôl i gyfnod cyn y cam presennol o ddatganoli yn Lloegr. Fe'i sefydlwyd yn 2000 ac mae'n cwrdd yn Neuadd y Ddinas. Mae'n cynnwys 25 Aelod Cynulliad ac mae ganddo'r gallu i newid cyllideb y Maer a gwrthod ei strategaethau, yn ogystal â gwneud cynigion ar nifer o faterion, megis trafnidiaeth a'r amgylchedd.

## Gogledd Iwerddon

### Hanes
Roedd Gogledd Iwerddon yn hunanlywodraethu, ac roedd gan y rhanbarth ei Senedd ei hun rhwng 1921 a 1972 pan gafodd Rheolaeth Uniongyrchol ei chyflwyno. Roedd Cytundeb Belffast (Dydd Gwener y Groglith) ym 1998 yn darparu ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon a Gweithrediadaeth rhannu pŵer. Mae gan Weithrediadaeth Gogledd Iwerddon ei Gwasanaeth Sifil ei hun sy'n wahanol i lywodraethau eraill y DU.

### Gallu Deddfwriaethol
Mae setliad datganoli Gogledd Iwerddon yn wahanol mewn rhai agweddau i setliadau y gweinyddiaethau datganoledig eraill. Mewn egwyddor, gall y Cynulliad hefyd ddeddfu mewn perthynas â materion 'a gedwir yn ôl' yn unol â chaniatadau amrywiol, ond ni all ddeddfu ar faterion sydd 'wedi'u heithrio'. Mae'r setliad yn cynnwys pwerau dros gyfiawnder, diogelwch cymdeithasol ac ynni, er bod ynni niwclear yn parhau i fod yn fater i Lywodraeth y DU.

### Cynulliad Gogledd Iwerddon
Mae'r Cynulliad yn cwrdd yn Parliament Buildings, Stormont, ac mae'n cynnwys 90 aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol (a elwir yn MLAs). Caiff pum MLA eu hethol o bob un o'r 18 etholaeth, gan ddefnyddio system o bleidleisiau trosglwyddadwy.

### Gweithrediadaeth Gogledd Iwerddon
Mae Gweithrediadaeth Gogledd Iwerddon yn glymblaid orfodol o bleidiau y mae Prif Weinidog a dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon yn ei chadeirio. Ar hyn o bryd, caiff y Prif Weinidog, y dirprwy Brif Weinidog ac wyth Gweinidog Gweithredol eu henwebu gan bleidiau gwleidyddol y Cynulliad, yn unol â gweithdrefnau a bennwyd yn Neddf Gogledd Iwerddon. Bydd cyfansoddiad y Gweithrediadaeth yn adlewyrchu cryfder cymharol pob plaid yn y Cynulliad.

# Yr Alban

## Hanes

Mae Deddfau Uno 1707, a ddiddymodd Seneddau Lloegr a'r Alban gan sefydlu Senedd Prydain Fawr, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer amddiffyn a chadw sefydliadau cyfreithiol a chymdeithasol gwahanol yn yr Alban, sef Cyfraith Sgotaidd ac Eglwys yr Alban. Mae datganoli gweinyddol yn yr Alban wedi bodoli ers y 1800au, gan arwain at wahaniaethau pellach ym meysydd megis addysg, amaethyddiaeth ac iechyd. Ym 1997, pleidleisiodd 74% o etholaeth yr Alban i sefydlu Senedd Albanaidd, gydag ystod o bwerau datganoledig.

## Senedd yr Alban

Mae Senedd yr Alban yn cwrdd yn Holyrood, Caeredin ac mae'n cynnwys siambr unigol â 129 o Aelodau Senedd yr Alban (MSPs). Cânt eu hethol am gyfnodau pedair blynedd o hyd drwy gynrychiolaeth gyfrannol ag aelodau cymysg.

## Llywodraeth yr Alban

Mae Llywodraeth yr Alban yn cael ei harwain gan Brif Weinidog sy'n gallu, gyda chymeradwyaeth gan Senedd yr Alban, benodi Ysgrifenyddion Cabinet (Gweinidogion Uwch), Gweinidogion (Gweinidogion Iau) a Swyddogion y Gyfraith i arwain ar bortffolios datganoledig. Lleolir prif swyddfeydd Llywodraeth yr Alban yng Nghaeredin, ac mae 1,500 o aelodau o staff ychwanegol yn gweithio mewn cyrff ledled yr Alban ac mewn canolfannau allweddol ym mhedwar ban byd. Mae Gweision Sifil sy'n gweithio i Lywodraeth yr Alban a'i asiantaethau'n aelodau o Wasanaeth Sifil y DU, wedi'i arwain gan Ysgrifennydd Parhaol unigol, ac maent yn rhwym i wasanaethu Gweinidogion yr Alban.

## Gallu Deddfwriaethol

Ers Deddf yr Alban 1998, mae setliad datganoli'r Alban wedi gweithredu drwy ddefnyddio model pwerau a gedwir yn ôl. Datganolodd Deddf yr Alban 2016 bwerau sylweddol pellach i Lywodraeth yr Alban, gan gynnwys elfennau o dreth a lles.

# Cymru

## Hanes

Ym 1997, pleidleisiodd 50.3% o bobl Cymru dros greu Cynulliad Cenedlaethol i Gymru, a gafodd ei roi ar waith drwy Deddf Cymru 1998. Yn dilyn Deddf Cymru 2006, rhoddwyd y gallu i'r cynulliad basio deddfwriaeth gynradd. Newidiodd Deddf Cymru 2017 fodel datganoli Cymru gan roi pwerau ychwanegol i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru.

## Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys un siambr gyda 60 o Aelodau Cynulliad (AS).

Cânt eu hethol am gyfnodau pum mlynedd o hyd drwy gynrychiolaeth gyfrannol ag aelodau cymysg. Mae'n rhaid bod mwyafrif o dau draean yn y Cynulliad er mwyn gwneud newidiadau i'r system etholiadol.

## Gallu Deddfwriaethol

Mae Deddf Cymru 2017 yn datganoli gallu deddfwriaethol pellach a phwerau gweithedol newydd mewn nifer o feysydd polisi. Yn ogystal, o ganlyniad i Ddeddfau Cymru 2014 a 2017, derbyniodd Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad bwerau i godi trethi ym mis Ebrill 2018 a bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn pwerau newydd dros incwm treth yn 2019.

## Llywodraeth Cymru

Mae Deddf Cymru yn darparu ar gyfer Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys Prif Weinidog, hyd at ddeuddeg Gweinidog arall a Chwnsel Cyffredinol. Lleolir y Llywodraeth yng Nghaerdydd yn bennaf ond mae ganddi swyddfeydd ledled Cymru a gwasanaeth sifil o tua 5,000, a arweinir gan Ysgrifennydd Parhaol.

# Sut mae datganoli'n gweithio: pwerau wedi'u datganoli a phwerau wedi'u cadw'n ôl

Y prif wahaniaeth yn y cyd-destun datganoli yw'r gwahaniaeth rhwng pwerau sydd wedi'u **datganoli** a'r rhai hynny sydd wedi'u **cadw'n ôl**. Pwerau datganoledig yw'r rhai hynny sydd wedi cael eu trosglwyddo o Lywodraeth y DU i un o'r cyrff deddfwriaethol datganoledig. Pwerau a gedwir yn ôl yw'r rhai hynny sy'n aros gyda Senedd y DU.

Mae rhai meysydd polisi wedi'u datganoli i un corff deddfwriaethol datganoledig ond wedi'u cadw'n ôl mewn rhanbarthau eraill. Er engrhaifft, mae plismona wedi'i ddatganoli yng Ngogledd Iwerddon ac yn yr Alban, ond wedi'i gadw'n ôl yn achos Cymru. O ganlyniad, nodwedd o ddatganoli yn y DU yw **anghymesuredd** sy'n parhau i esblygu, sy'n golygu bod gan bob un o'r tair gweinyddiaeth ddatganoledig setliad sy'n cynnwys meysydd a lefelau amrywiol o bŵer. Hanes sylfaenol a dylanwadau gwleidyddol unigol pedair cenedl y DU sydd wrth wraidd hyn.

Yng Ngogledd Iwerddon, defnyddir y gair **trosglwyddo** yn lle datganoli. Mewn egwyddor, gall Cynulliad Gogledd Iwerddon hefyd ddeddfu mewn perthynas â materion wedi'u cadw'n ôl yn unol â chaniatadau amrywiol, ond nid yw wedi gwneud hynny eto i raddau arwyddocaol. Materion wedi'u heithrio yw'r rhai hynny sy'n cael eu cadw gan Lywodraeth y DU am gyfnod amhenodol ac sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon yn unig.

Isod, ceir crynodeb lefel uchel o'r pwerau sydd wedi'u **datganoli** ym mhob rhan o'r DU. Cofiwch fod setliadau datganoli'n unigryw a gall y gwahaniaeth rhwng pwerau datganoledig a phwerau a gadwyd yn ôl fod yn gymhleth ar adegau. Dyma sy'n gwneud ymgysyllu rhwng swyddogion ar draws y gweinyddiaethau mor bwysig.

Wedi'u datganoli

| Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon | Hefyd wedi'i ddatganoli yng Ngogledd Iwerddon | Hefyd wedi'i ddatganoli yn yr Alban | Hefyd wedi'i ddatganoli yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol | Cyfiawnder a phlismona | Cyfiawnder a phlismona | Y Gymraeg |
| Addysg, hyfforddi a sgiliau | Cyfraith Elusennau | Cyfraith Elusennau | Peth incwm treth (o Ebrill 2019) |
| Llywodraeth leol | Ynni | Treth stamp treth dir | Treth stamp treth dir |
| Tai | Cyfraith cyflogaeth | Trwyddedu cloddio olew a nwy ar y tir | Treth dirlenwi |
| Datblygu economaidd | Nawdd cymdeithasol, cynnal plant, pensiynau | Peth treth incwm (gan gynnwys gallu i osod cyfraddau a throthwyon) | Arwyddion ffyrdd a therfynau cyflymder |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd | Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon | Cyfleoedd cyfartal mewn perthynas â chyrff cyhoeddus yn yr Alban | Cyfleoedd cyfartal mewn perthynas â chyrff cyhoeddus yng Nghymru |
| Amgylchedd a chynllunio | Cyfleoedd cyfartal | Treth cludo teithwyr drwy awyr (dyddiad i'w gadarnhau) | Trwyddedu cloddio olew a nwy ar y tir |
| Trafnidiaeth | Amser | Erthyliad | Cynulliad ac etholiadau llywodraethau lleol |
| Twristiaeth, chwaraeon, diwylliant a threftadaeth | Cyfraddau Toll Teithwyr Awyr | Treth dirlenwi | |
| Gwasanaethau tân ac achub | | Rhai elfennau nawdd cymdeithasol | |
| Amddiffyn rhag dŵr a llifogydd | | Eiriolaeth a chyngor i brynwyr | |
| | | Senedd yr Alban ac etholiadau llywodraeth leol | |

Isod ceir crynodeb lefel uchel o'r pwerau sydd wedi'u **cadw'n ôl** ym mhob rhan o'r DU. Cofiwch fod setliadau datganoli yn unigryw a gallant fod yn gymhleth weithiau.

**Wedi'u cadw'n ôl**

| **Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon** | **Hefyd wedi'i gadw'n ôl yng Ngogledd Iwerddon** | **Hefyd wedi'i gadw'n ôl yn yr Alban** | **Hefyd wedi'i gadw'n ôl yng Nghymru** |
|---|---|---|---|
| Y cyfansoddiad | Ynni niwclear | Cyfraith cyflogaeth | Cyfraith cyflogaeth |
| Materion tramor | Arfau gwaharddedig | Rheilffyrdd trawsffiniol | Rheilffyrdd trawsffiniol |
| Amffiddyn a diogelwch cenedlaethol | | Ynni | Ynni |
| Cenedligrwydd, mewnfudo a lloches | | Nawdd cymdeithasol* | Nawdd cymdeithasol |
| Materion macroeconomaidd a chyllidol | | Erthyliad, geneteg, benthyg croth, meddyginiaethau, embryoleg | Erthyliad, geneteg, benthyg croth, meddyginiaethau, embryoleg |
| Gwasanaethau ariannol a rheoleiddio pensiynau | | Cyfleoedd cyfartal* | Cyfleoedd cyfartal* |
| Masnach ryngwladol a marchnadoedd ariannol | | Y Gwasanaeth Sifil | Y Gwasanaeth Sifil |
| Datblygu rhyngwladol | | | Gwasanaethau post |
| Etholiadau i Senedd y DU a Senedd Ewrop | | | Cyfiawnder a phlismona |
| Isafswm Cyflog Cenedlaethol | | | Cyfraith Elusennau |
| Cystadlu | | | |
| Eiddo deallusol | | *ac eithrio elfennau sydd wedi'u datganoli gan Ddeddf yr Alban 2016 | *ac eithrio elfennau sydd wedi'u datganoli gan Ddeddf Cymru 2017 |

Mae deall manylion setliadau datganoli a sut maent yn gweithredu'n ymarferol yn bwysicach byth gan y gall elfennau o un maes polisi gael eu cadw'n ôl tra y bydd eraill wedi'u datganoli, neu efallai y bydd maes polisi wedi'i gadw'n ôl ond bydd agweddau ar ei gyflwyno yn ddatganoledig. At hynny, **pwerau cyfochrog** yw'r rhai hynny lle mae cyfrifoldeb wedi'i rhannu rhwng Llywodraeth y DU a gweinyddiaeth ddatganoledig, sy'n golygu y gall y ddau gorff ddeddfu deddfwriaeth eilradd mewn meysydd polisi penodol.

# Canfod y ffordd yn Nhirwedd Datganoli

## Y Gwasanaeth Sifil Unedig a Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon

Mae swyddogion sy'n gweithio i lywodraethau y DU, Cymru a'r Alban yn rhan o'r un sefydliad One Civil Service ac maent yn rhannu diwylliant a gwerthoedd fel y'u pennir yng Nghodau'r Gwasanaeth Sifil. Mae **Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon** yn sefydliad ar wahân ond mae'n rhannu'r un diwylliant a'r un gwerthoedd â'r One Civil Service, fel y'u pennwyd yn ei Gôd Gwasanaeth Sifil. Mae'r gwerthoedd cyffredin hyn yn ei gwneud yn haws i weision sifil o sawl gweinyddiaeth weithio ar y cyd, a bydd cyswllt rheolaidd yn gwella eich dealltwriaeth o ddatganoli a sut mae'n effeithio ar eich maes gwaith chi

## Gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig

Y gwahaniaeth amlycaf rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yw maint. Mae pob gweinyddiaeth ddatganoledig yn cyflogi llai o weision sifil na Llywodraeth y DU. Yn aml, golyga hyn y bydd gweision sifil unigol yn y gweinyddiaethau datganoledig, yn enwedig ym maes llunio polisi, yn gweithio ar bortffolios mwy a mwy amrywiol. Mae'n bwysig i gofio hyn wrth gydweithio ar draws gweinyddiaethau. At hynny, ni fydd cyfrifoldebau'r cyfarwyddiaethau ym mhob gweinyddiaeth yn cyfateb yn uniongyrchol â chyfarwyddiaethau tebyg yn y gweinyddiaethau eraill o reidrwydd. Y pwynt cyswllt i weision sifil yw **timoedd perthnasoedd rhynglywodraethol ym mhob gweinyddiaeth** os ydynt yn chwilio am bwyntiau cyswllt neu wybodaeth sy'n benodol i'r weinyddiaeth.

## Confensiwn Sewel a Chynigion Cydsyniad Deddfwriaethol (LCMs)

Mae Confensiwn Sewel yn berthnasol pan fydd Senedd y DU yn deddfu ar fater sy'n rhan o allu datganoledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon. O dan delerau'r Confensiwn, ni fydd Senedd y DU yn gwneud hynny "yn arferol" heb fod y sefydliad datganoledig wedi pasio cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Bydd aelodau etholedig cyrff deddfwriaethol datganoledig yn nodi a ydynt, ar y cyd, yn fodlon i Senedd y DU basio cyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig drwy bleidleisio naill ai o blaid, neu yn erbyn, gynnig cydsyniad deddfwriethol cysylltiedig.

## Gweithio gyda Llywodraeth y DU

Gan fod Llywodraeth y DU yn gweithredu drwy adrannau gwahanol, gall prosesau mewnol gymryd amser hir. Mae hyn yn arbennig o benodol i'r broses cyd-gytundeb sy'n nodi bod yn rhaid cael cymeradwyaeth ar gyfer deddfwriaeth, polisïau ac ymgynghoriadau newydd gan pob aelod o is-bwyllgorau'r Cabinet, ond mae hefyd yn yn berthnasol yn fwy cyffredinol i glirio, rhannu gwybodaeth a phrosesau cytuno.

Mae gan bob adran yn y Llywodraeth gydlynydd datganoli, ac yn aml caiff ei gefnogi gan dimoedd datganoli mwy. Mae'n cynnig cyngor da ar sut mae datganoli'n effeithio ar waith adran o fewn Llywodraeth y DU, ac mae'n cefnogi gwaith cydweithredol rhynglywodraethol ac yn datblygu dealltwriaeth fewnol o ddatganoli. Maent yn ffynonellau o wybodaeeth a chyngor hynod ddefnyddiol i Lywodraeth y DU a gweision sifil gweinyddiaethau datganoledig.

Yn olaf, mae'r Swyddfeydd Tiriogaethol yn adrannau Llywodraeth y DU sy'n hynod werthfawr wrth helpu Llywodraeth y DU i ddeall manylion setliadau datganoli, a sut i gyflwyno polisïau ar y cyd â gweinyddiaeth arall. Maent yn cynnwys Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, a Swyddfa Gogledd Iwerddon. Maent yn cynrychioli Llywodraeth y DU yn y cenhedloedd datganoledig a'r cenhedloedd datganoledig yn Llywodraeth y DU. Mae Swyddfa Adfocad Cyffredinol yr Alban yn darparu cyngor cyfreithiol i Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r Alban a'r Gyfraith Sgotaidd.

> *"O fewn Llywodraeth y DU, mae Ysgrifenyddion Gwladol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am sicrhau y caiff diddordebau'r rhannau hynny o'r DU eu cynrychioli a'u hysteried yn gywir mewn materion nad ydynt wedi'u datganoli."* *(Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – gweler tudalen 12)*

## Gwahaniaethau strwythurol rhwng pob gweinyddiaeth

Mae strwythur pob un o'r pedair gweinyddiaeth yn amrywio'n sylweddol ac mae gan hyn oblygiadau o ran sut mae gweision sifil yn cydweithio ar draws gweinyddiaethau. Dyma rai o'r gwahaniaethau allweddol:

| | **Llywodraeth y DU** | **Llywodraeth yr Alban** | **Llywodraeth Cymru** | **Gweithrediadaeth Gogledd Iwerddon** |
|---|---|---|---|---|
| **Pennaeth y Llywodraeth** | Prif Weinidog | Prif Weinidog | Prif Weinidog | Prif Weinidog a dirprwy Brif Weinidog |
| **Cabinet** | Prif Weinidog, 22 Gweinidog y Cabinet a 6 Gweinidog arall sydd hefyd yn mynychu | Prif Weinidog ac 11 Ysgrifennydd Cabinet | Prif Weinidog, 6 Ysgrifennydd Cabinet a 2 Weinidog arall sydd hefyd yn mynychu | Prif Weinidog, Dirprwy Brif Weinidog ac 8 Gweinidog arall sydd hefyd yn mynychu |
| **Ysgrifenyddion Parhaol** | 30+ o Ysgrifenyddion Parhaol | 1 Ysgrifennydd Parhaol | 1 Ysgrifennydd Parhaol | 9 Ysgrifennydd Parhaol |
| **Adrannau** | 25 adran weinidogol, 20 adran anweinidogol | 6 Chyfarwyddwyr Cyffredinol, 40+ o Gyfarwyddiaethau | Wedi'u rhannu'n 4 Grŵp | 9 Adran |
| **Nifer y Gweision Sifil** | tua 400,000 | tua 17,000 | tua 5,000 | tua 23,500 |

## Yn gwasanaethu llywodraethau lluosog

Mae'n bwysig cofio y bydd gweision sifil ym mhob un o'r pedair llywodraeth yn gweithio tuag at flaenoriaethau gweinidogol gwahanol. Gall y rhain gyd-fynd yn agos neu fod yn sylweddol wahanol, gan ddibynnu ar y materion dan sylw a'r llywodraeth gyfredol. O ganlyniad, gall y cyd-destun gwleidyddol ychwanegu haenen bellach o gymhlethdod i dirwedd datganoli ond mae hefyd yn golygu y bydd gweithio gyda gweinyddiaethau lluosog a dealltwriaeth o'u blaenoriaethau'n hynod ddiddorol.

I gyflawni amcanion polisi a gweithio fel llywodraethau effeithiol sy'n darparu gwasanaethau o safon i'r bobl y mae eu hangen arnynt, ym aml mae angen i wleidyddion a swyddogion ym mhob gweinyddiaeth weithio gyda'i gilydd. Mae'r gweithio rhynglywodraethol hwn yn digwydd ar amrywiaeth o faterion, ar amrywiaeth o ffurfiau ac er mwyn cyflawni amrywiaeth o ganlyniadau. Ceir nifer o strwythurau y cytunwyd arnynt ar y cyd nad ydynt yn gyfreithiol rwymedig ond sy'n hwyluso ac yn llywio cyfathrebu, **gwaith cydweithredol a chydlynu rhynglywodraethol**.

> *“Mae pob un o'r pedair gweinyddiaeth yn ymrwymedig i'r egwyddor o gyfathrebu da â phob un arall, ac yn enwedig pan allai gwaith un weinyddiaeth fod yn berthnasol mewn rhyw ffordd i gyfrifoldebau gweinyddiaeth arall.” (Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth)*

## Ystyried datganoli wrth eich gwaith o ddydd i ddydd

Mae angen i chi fod yn ymwybodol o effaith datganoli ar y polisïau rydych chi'n gweithio arnynt neu'r gwasanaethau cyhoeddus rydych chi'n eu rheoli. Yn bennaf oll, mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o gwmpas **tiriogaethol** eich gwaith, hynny yw, ym mha rannau o'r DU lle bydd yn berthnasol. I ddeall hyn, bydd yn rhaid i chi ystyried awdurdodaeth gyfreithiol, yn ogystal ag a yw pwnc wedi'i ddatganoli neu wedi'i gadw'n ôl. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n gweithio ar bolisi sy'n effeithio ar Loegr yn unig, ar Gymru a Lloegr, ledled Prydain Fawr (sef Cymru, Lloegr a'r Alban) neu ledled y DU yn ei chyfanrwydd. Mae cwmpasau tiriogaethol eraill yn bosib.

Wedi cadarnhau'r cwmpas tiriogaethol, bydd yna angen i chi ddeall goblygiadau eich polisi ar rannau o'r DU lle nad yw'r polisi'n uniongyrchol berthnasol ac a fydd cyfathrebu neu gydlynu â gweinyddiaethau eraill yn ofynnol yn y dyfodol.



*“Mae''r gweinyddiaethau''n cydnabod pwysigrwydd cydweithio ar draws amrywiaeth o feysydd.” (Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth)*

## Llunio polisi

Mae **cyfathrebu, cydweithio a chydlynu** yn enwedig o bwysig os ydych chi'n llunio polisi newydd. Os ydych chi'n gweithio ar faes polisi sydd wedi'i ddatganoli, mae gennych gyfle da i ddysgu o ymagweddau gwahanol a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r DU a gallwch rannu yr hyn a ddysgir am broblemau cyffredin. Mae'r **pecyn cymorth** Datganoli a Chi yn adnodd hollbwysig i lunwyr polisi proffesiynol y mae datganoli'n rhan o'u gwaith.

## Cyflwyno polisïau

Hyd yn oed os bydd y polisi ei hun yn dod dan faes datganoledig neu faes a gedwir yn ôl, mae'n bosib mai Llywodraeth y DU, gweinyddiaethau datganoledig neu'r ddau a fydd yn ei gyflwyno. Efallai y bydd yn rhaid i chi weithio gydag un neu fwy o weinyddiaethau eraill yn y DU er mwyn rhoi eich polisi ar waith neu gyflwyno eich gwasanaeth yn llwyddiannus. Hyd yn oed os bydd polisïau'n ymwahanu, efallai y bydd yn gwneud synnwyr i ymgysylltu â llywodraethau eraill y DU i gael cyngor a chymorth o ran sut i'w rhoi ar waith.

*“Nod y weinyddiaeth fydd darparu mynediad i wybodaeth wyddonol, technegol a pholisi, gan gynnwys ystadegau ac ymchwil, mor eang â phosib i'w gilydd." (Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth)*

# Gweithio ynghyd

## Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU)

Cytunwyd ar yr MoU rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon am y trocyntaf yn 2001 ac fe'i diweddarwyd ddiwethaf ym mis Hydref 2013. Mae'n amlinellu'r egwyddorion sy'n sail i berthnasoedd rhwng y gweinyddiaethau hyn. Mae'r MoU yn pwysleisio'r egwyddorion o gyfathrebu**, ymgynghori a chydweithio da**.

Mae'r MoU hefyd yn cynnwys nifer o Gongordatiau rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r rhain yn cydnabod diddordebau'r gweinyddiaethau mewn perthnasoedd rhyngwladol ac â'r Undeb Ewropeaidd (sef materion sy'n parhau i fod yn gyfrifoldeb Llywodraeth y DU), gan bennu trefniadau gweithio.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cynnal adolygiad o'r perthnasoedd rhynglywodraethol, gan gynnwys yr MoU hwn, yn sgîl y DU yn gadael yr UE.

## Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (JMC)

Mae'r MoU yn gwneud darpariaeth ar gyfer y JMC, strwythur pwyllgor ar gyfer perthnasoedd rhynglywodraethol. Ei ddiben yw galluogi Gweinidogion o Lywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig i ymgysylltu'n effeithiol â'i gilydd. Mae'r cylch gwaith fel a ganlyn:


- ystyried materion nad ydynt wedi'u datganoli sy'n effeithio ar gyfrifoldebau datganoledig, a materion datganoledig sy'n effeithio ar gyfrifoldebau nad ydynt wedi'u datganoli;
- pan fydd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn gytûn, ystyried materion datganoledig os yw'n fuddiol trafod eu trinaieth berthnasol mewn gwahanol rannau o'r DU;
- parhau i adolygu trefniadau rhynglywodraethol;
- ystyried anghydfodau rhwng y gweinyddiaethau.

Mae'r JMC yn cwrdd ar ffurfiau gwahanol. Ar hyn o bryd, mae'n cwrdd ar y ffurfiau canlynol:

- **JMC (Sesiwn lawn)** – wedi'i gadeirio gan y Prif Weinidog gyda Phrif Weinidogion y gweinyddiaethau datganoledig, gan gynnwys dirprwy Brif Weinidog Iwerddon. Dylai gwrdd o leiaf yn flynyddol.
- **JMC (Ewrop)** – wedi'i gadeirio gan Weinidog y Wladwriaeth yn yr Adran dros Ymadael â'r UE. Mae'n cwrdd yn chwarterol cyn y Cyngor Ewropeaidd i drafod busnes parhaus sy'n ymnweud â'r UE.
- **JMC (Negodiadau'r UE)** – wedi'i gadeirio gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn. Mae'n cwrdd ar achlysuron rheolaidd i hwyluso ymgysylltiad gwleidyddol a chydweithio rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar Ymadael â'r UE.
- **Fforwm Gweinidogol (Negodiadau'r UE)** – wedi'i gadeiriogan Weinidog y Cyfansoddiad ac Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer yr Adran dros Ymadael â'r UE. Sefydlwyd y fforwm ychwanegol hwn yn 2018 i drafod y sefyllfa negodi â'r UE ymhellach.
- **JMC (Swyddogion)** – swyddogion o'r pedair gweinyddiaeth yn cysgodi'r JMC ac yn paratoi ar gyfer ei gyfarfodydd.

## Cyngor Prydain-Iwerddon (BIC)

Sefydlwyd BIC fel rhan o'r cytundeb aml-blaid y cytunwyd arno ym Mhelffast ar 10 Ebrill 1998. Mae ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Iwerddon, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediadaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Ynys Manaw, Llywodraeth Jersey a Llywodraeth Guernsey. Mae'r Cyngor yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn ac mae'n canolbwytio ar gydweithio o ran polisi a chydweithio mewn 11 sector gwaith, o gynhwysiad digidol i drafnidiaeth. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Cyngor yn [www.britishirishcouncil.org](www.britishirishcouncil.org)



## Gweithio ynghyd dramor

Fel y'i bennwyd yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, mae perthasoedd rhyngwladol yn parhau i fod yn gyfrifoldeb Llywodraeth y DU a Senedd y DU. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y bydd gan weinyddiaethau datganoledig ddiddordeb mewn llunio polisi rhyngwladol mewn perthynas â materion datganoledig ac yn enwedig pan fydd rhaid i weinyddiaethau datganoledig rhoi cytundebau ar waith.

O ganlyniad, mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn sicrhau ei bod yn briffio Gweinidogion a swyddogion gweinyddiaethau datganoledig pan fydd angen ac adlewyrchu eu blaenoriaethau a'u pryderon dramor. Mae'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol yn gweithredu yn yr un modd ac mae'n cydweithio gyda Llywodraeth yr Alban yn benodol ar ei rhaglen datblygu rhyngwladol hithau.

Mae masnach yn cynrychioli croestoriad cymhleth o alluoedd deddfwriaethol gan fod hyrwyddo masnach yn bwnc cydredol, er bod polisi masnach yn bwnc a gedwir yn ôl, ac mae cytundebau masnachol yn cynnwys meysydd sy'n croestorri â meysydd polisi datganoledig megis amaethyddiaeth. Mae cydweithio cynyddol dramor wrth i'r gweinyddiaethau datganoledig sefydlu Canolfannau Masnach a Buddsoddi, yn aml fel rhan o swyddi Llywodraeth y DU, a Chenadaethau Masnach ar y cyd i annog buddsoddi mewnol ym mhob rhan o'r DU. Mae'r Adran dros Fasnach Ryngwladol (DIT) yn ymgysylltu â chwmnïoedd ar draws y DU a, boed yn uniongyrchol neu drwy'r weinyddiaeth ddatganoledig briodol, yn darparu mynediad i ddigwyddiadau a arweinir gan DIT a chenhedlaeth fasnach a chynlluniau cefnogi.

> *“Bydd Llywodraeth y DU yn cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig cymaint â phosib mewn trafodaethau am lunio polisi y DU ar bob mater UE a materion rhyngwladol sy'n dylanwadu ar faterion datganoledig.” (Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth)*

# Ble gallaf ddod o hyd i ragor o wybodaeth

## Datganoli a Chi

Dechreuodd y rhaglen Datganoli a Chi yn 2015 ac fe'i lluniwyd i wella gallu datganoli ar draws y One Civil Service.

## Dysgu

Rydym yn darparu amrywiaeth eang o hyfforddiant o weision sifil. Ceir modiwl **ar-lein sydd** ar gael drwy CS Learning o'r enw **Datganoli a Gweithio Rhynglywodraethol.** Mae'n fan delfrydol i ddechrau os ydych chi'nnewydd i'r gwasanaeth sifil neu i swyddi datganoli. Mae gennym hefyd ffeithlen ar ddatganoli lefel uchel a **throsolwg ar ffurf cerdyn post o bwerau sydd wedi'u datganoli a'u cadw'n ôl**, yn ogystal â **phecyn cymorth manwl** i lunwyr polisi proffesiynol. Mae gwybodaeth am ddatganoli yn gov.uk, gan gynnwys **Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ddatganoli,** nodiadau technegol ar bynciau megis atebolrwydd gweinidogol ac ymdrin â gohebiaeth.

## Cyfnewidfa

Mae hefyd gynllun Cyfnewidfa drawsweinyddol sy'n rhoi'r cyfle i weision sifil o'r One Civil Service a Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon i gysgodi cydweithwyr mewn gweinyddiaethau eraill, cwrdd â chydweithwyr mewn swyddi cyfatebol a rhannu arfer gorau. Cynhelir y prif gynllun yn ystod tair wythnos bob blwyddyn. Mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban oll yn cynnal wythnos yr un. Yn ychwanegol, mae cynlluniau cyfnewid arbenigol wrthi'n cael eu datblygu ar draws y One Civil Service. Os oes diddordeb gennych chi mewn cyflwyno cais i gymryd rhan mewn un o'r wythnosau hyn, e-bostiwch un o'r Rheolwyr Cyfnewidfa:

Llywodraeth y DU - ukginterchange@cabinetoffice.gov.uk
Llywodraeth yr Alban - john.petrie@gov.scot
Llywodraeth Cymru: sian.bryant@gov.wales
Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon: paul.mcveigh@finance-ni.gov.uk

## Dolenni

**Datganoli, GOV.UK** https://www.gov.uk/topic/government/devolution

**Datganoli: Canllawiau i bob Gwas Sifil**
https://www.gov.uk/government/publications/devolution-guidance-for-civil-servants/devolution-guidance-for-civil-servants

**Deddf yr Alban 2016 -** deddfwriaeth sy'n pennu diwygiadau i Ddeddf yr Alban.
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2016/11/pdfs/ukpga_20160011_en.pdf

**Deddf Cymru 2017 -** deddfwriaeth sy'n pennu diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/4/pdfs/ukpga_20170004_en.pdf

**Deddf Gogledd Iwerddon 1998** – deddfwriaeth a ddatblygodd Cytundeb Belffast (Dydd Gwener y Groglith) 1998 ymhellach.
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/47/contents

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Datganoli a Chytundeb Atodol, Medi 2012**
https://www.gov.uk/government/publications/devolution-memorandum-of-understanding- and-supplementary-agreement

# Pwyntiau cyswllt

## Llywodraeth yr Alban

Is-uned y Cyfansoddiad a Pherthnasoedd y DU
Alison Morris – alison.morris@scotland.gsi.gov.uk

## Llywodraeth Cymru

Materion Cyfansoddiadol a Pherthnasoedd Rhynglywodraethol
Owen Davies – owen.davies003@wales.gsi.gov.uk

## Gweithrediadaeth Gogledd Iwerddon

Swyddfa'r Weithrediadaeth
Conor McParland - Conor.McParland@executiveoffice-ni.gov.uk

## Llywodraeth y DU

Swyddfa Gogledd Iwerddon
Karen McNeill - karen.mcneill@nio.gov.uk

Grŵp Llywodraethu'r DU Grŵp y Cyfansoddiad, Swyddfa'r Cabinet
devolution@cabinetoffice.gov.uk

Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol yr Alban
somps@scotlandoffice.gsi.gov.uk

Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru Jeff Lloyd - jeff.lloyd@walesoffice.gov.uk

Swyddfa Adfocad Cyffredinol yr Alban
enquiries@advocategeneral.gsi.gov.uk

## Cydlynwyr Datganoli Adrannol Llywodraeth y DU

| | | |
|---|---|---|
| Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol | Jeremy Martin | jeremy.martin@beis.gov.uk |
| Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | Siobhan Smyth | siobhan.smyth@communities.gsi.gov.uk |
| Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol | Steven Roddie | s-roddie@dfid.gsx.gov.uk |
| Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig | Ruth Cox | ruth.cox@defra.gsi.gov.uk |
| Yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd | Sian Parkinson | sian.parkinson@dexeu.gov.uk |
| Yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon | | devolution@culture.gov.uk |
| Yr Adran Drafnidiaeth | Andy Robinson | andy.robinson@dft.gsi.gov.uk |
| Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Alison Raw | alison.raw@dh.gsi.gov.uk |
| Yr Adran Gwaith a Phensiynau | Richard Poureshagh | richard.poureshagh@dwp.gsi.gov.uk |
| Yr Adran Addysg | Richard Hoy | Richard.HOY@education.gov.uk |
| Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad | | devolution.unit@fco.gsi.gov.uk |
| Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi | Paul Stansfield | paul.stansfield@hmrc.gsi.gov.uk |
| Trysorlys Ei Mawrhydi | Claire Brook | claire.brook@hmtreasury.gsi.gov.uk |
| Y Swyddfa Gartref | Grant Oliver | grant.oliver@homeoffice.gsi.gov.uk |
| Y Weinyddiaeth Amddiffyn | Carolyn Kemp | DSP-Devolution-AH2@mod.uk |
| Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Geraint Davies | geraint.davies@justice.gsi.gov.uk |
| Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol | Francesca Debenham | francesca.debenham@attorneygeneral.gsi.gov.uk |
| Yr Adran dros Fasnach Ryngwladol | Saffy Hussain | Saffy.Hussain@trade.gov.uk |
| Swyddfa'r Cabinet | Strategaeth Ddatganoli'r DU | devolution@cabinetoffice.gov.uk |

# Rhestr Dermau a Chanllaw i Fyrfoddau

**Concordatiau:** cytundebau ar gyfertrefniadau gweithio rhwng adrannau Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.
**Gweinyddiaethau datganoledig:** term torfol ar gyfer cyrff gweithredol yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru: Gweithrediadaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.
**Nodiadau Cyfarwyddyd Datganoli:** dogfennau ysgrifenedig, gan gynnig canllawiau i weision sifil ar faterion datganoli.
**Cyrff deddfwriaethol datganoledig:** term dorfol ar gyfer cyrff deddfu yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban: Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Senedd), a Chynulliad Gogledd Iwerddon (Stormont) a Senedd yr Alban (Holyrood).
**Setliadau datganoli:** cytundebau statudol rhwng Senedd y DU a phob corff deddfwriaethol datganoledig, sy'n pennu sut mae pwerau a chyfrifoldebau wedi'u dosbarthu, yn ogystal â dogfennau megis concordatiau sy'n darparu canllaw ar gyferperthnasoedd rhynglywodraethol.
**Prydain Fawr:** ynys sy'n cynnwys Lloegr, yr Alban, a Chymru.
**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU):** fe'i cytunwyd ym 1999 a ac fe'i diweddarwyd ddiwethaf ym mis Hydref 2013, ac mae'n amlinellu'r egwyddorion sy'n sail i berthnasoedd rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.
**Gallu deddfwriaethol:** pwerau cyfreithiol pob corff deddfwriaethol datganoledig i ddeddfu. Gall corff deddfwriaethol datganoledig ddeddfu dim ond pan fydd ganddo'r gallu deddfwriaethol i wneud hynny.
**Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM):** y ffordd y mae corff deddfwriaethol datganoledig yn nodi ei fod yn fodlon ar gynnwys ar gyfer Senedd y DU i ddeddfu cyfraith ar fater sy'n ddatganoledig. Maent yn codio arddeliad Gonfensiwn Sewel na fydd Senedd y DU yn deddfu ar fater datganoledig yn arferol heb gael cydsyniad gan y corff deddfwriaethol datganoledig perthnasol.
**Model pwerau wedi'u 'trosglwyddo':** categori o setliad datganoli sy'n pennu “materion wedi'u heithrio” na all y corff deddfwriaethol ddeddfu arnynt, “materion wedi'u cadw'n ôl” y gall ddeddfu arnyntgyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol, gan adael yn amhenodol yr holl “faterion wedi'u trosglwyddo” y gall ddeddfu arnynt yn rhydd.
**Swyddfeydd Tiriogaethol (TOs):** rhan o Lywodraeth y DU, maent yn cynrychioli barn Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn Llywodraeth y DUa Llywodraeth y DU yng Nghymru, yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon. Maent yn cynnwys Swyddfa Gogledd Iwerddon, Swyddfa Adfocad Cyffredinol yr Alban, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol yr Alban a Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru.
**Y Deyrnas Unedig:** enw swyddogol y wladwriaeth sofran sy'n cynnwys Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

**Datganoli**
AC (AM) - Aelod Cynulliad (Cymru)
BIC - Cyngor Prydain-Iwerddon
CDs - Dibynwledydd y Goron
CG - Grŵp Cyfansoddiad (rhan o Swyddfa'r Cabinet)
DA – Gweinyddiaeth ddatganoledig
dFM - dirprwy Brif Weinidog (Gogledd Iwerddon) FM - Prif Weinidog
JMC - Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (P - Sesiwn lawn, EN - Negodiadau'r UE, O - Swyddogion, E - Ewrop)
LCM - Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol
MLA - Aelod o Gorff Deddfwriaethol y Cynulliad (Gogledd Iwerddon)
MOU - Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth MSP - Aelod o Senedd yr Alban NICS - Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon NIE - Gweithrediadaeth Gogledd Iwerddon
NSMC - Cyngor Gweinidogion y Gogledd a'r De (rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon)
OTs - Tiriogaethau Tramor TOs - Swyddfeydd Tiriogaethol SG - Llywodraeth yr Alban
UKGG - Grŵp Llywodraethu'r DU (Llywodraeth Ganolog, Swyddfa'r Alban, y Swyddfa Gymreig ac OAG ond nid Swyddfa Gogledd Iwerddon)
LIC (WG) - Llywodraeth Cymru

**Adrannau Llywodraethol y DU**
BEIS - Yr Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiant
CO - Swyddfa'r Cabinet
DCMS - Yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
DfE – Yr Adran Addysg
Defra - Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
DExEU - Yr Adran dros Ymadael â'r UE
DfID - Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol DIT – Yr Adran dros Fasnach Ryngwladol
DfT – Yr Adran Drafnidiaeth
DHSC – Yr Adran dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
DWP – Yr Adran Gwaith a Phensiynau FCO - Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad Office HMRC – Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi HMT – Trysorlys Ei Mawrhydi
HO - Y Swyddfa Gartref
MHCLG - Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol
MoJ - Y Weinyddiaeth Gyfiawnder MoD - Y Weinyddiaeth Amddiffyn NIO - Swyddfa Gogledd Iwerddon
OAG - Swyddfa'r Adfocad Cyffredinol OGDs - Adrannau Eraill y Llywodraeth

# Proffil Ymarferydd Datganoli

## Cyfarwyddwr: Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol yr Alban

Gillian McGregor

Scotland Office

### Beth mae'ch gwaith o ddydd i ddydd yn ei gynnwys?

Rwy'n rhannu fy wythnos gwaith rhwng dwy swyddfa yng Nghaeredin ac yn Llundain. Mae'r rhan fwyaf o ddyddiau yn cynnwys cyfarfodydd ar faterion corfforaethol megis cyllid, staffio a chynllunio busnes. Pan fyddaf yn Llundain, gallaf ddisgwyl treulio cryn dipyn o amser gyda Gweinidogion a chydweithwyr mewn adrannau eraill. Ymadael â'r UE yw ein prif ffocws a sut y bydd hynny'n effeithio ar yr Alban, ond mae gennym waith pwysig arall i'w gyflawni, ar y Bargeinion Dinesig er enghraifft. Rwy'n treulio cymaint o amser â phosib yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn yr Alban a chydweithwyr yn Llywodraeth yr Alban. Mae pob dydd yn wahanol!

### Pa rôl mae datganoli a pherthnasoedd rhynglywodraethol yn eu chwarae yn eich gwaith o ddydd i ddydd?

Mae'r rhain yn gwbl ganolog i'n gwaith bob dydd. Mae gan ein Hadran ymrwymiad cadarn i sicrhau y caiff y setliad datganoli ei barchu ar draws Whitehall ac mae gennym rôl bwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod adrannau Whitehall yn ymgysylltu â Llywodraeth yr Alban am bolisïau a deddfwriaeth, gan gynnwys wrth i ni ganfod y ffordd drwy gymhlethdodau ymadael â'r UE. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal perthasoedd rhynglywodraethol cryf a'n bod yn deall yn llawn ddimensiynau datganoledig polisi Llywodraeth y DU hyd yn oed (neu o bosib yn enwedig) pan nad yw'n amlwg i gychwyn.

### Gyda phwy ydych chi'n gweithio, ac ar ba faterion?

Llywodraeth yr Alban ar faterion sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE a Bargeinion Dinesig (pan fydd gennym Bwrdd Cyflwyno ar y Cyd). Mae'r Swyddfa'n rhan o Grŵp Llywodraethu'r DU ehangach ac mae'r perthansoedd hyn (â Grŵp y Cyfansoddiad, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Swyddfa Gogledd Iwerddon a Swyddfa'r Adfocad Cyffredinol) yn agos iawn. Yn ogystal, mae gennyf rwydweithiau ar draws prif adrannau Llywodraeth y DU, gan gynnwys Number 10, Swyddfa'r Cabinet, DExEU, BEIS, Defra, DIT a llawer mwy! Rwyf hefyd yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid yn yr Alban, gan gynnwys busnes, awdurdodau lleol a'n rhwydwaith o 27,000 o weision sifil Llywodraeth y DU sy'n byw ac yn gweithio yn yr Alban.

### Sïon sicr ar gyfer gweithio rhynglywodraethol effeithiol:

1. Treulio amser yn meithrin perthnasoedd – pan fo'n bosib, cwrdd wyneb yn wyneb i ddatblygu cyd-ymddiriedolaeth.

2. Peidiwch ag aros am argyfwng er mwyn cysylltu – mae cyfathrebu rheolaidd, hyd yn oed pan nad oes fawr i'w ddweud, yn talu ar ei ganfed.

3. Canolbwyntiwch ar y canlyniad rydych chi am ei gyflawni – mae bob amser tir cyffredin gyda ni, er gwaethaf y gwahaniaethau gwleidyddol.

# Proffil Ymarferydd Datganoli

## Ymgynghorydd Polisi, Materion Cyfansoddiadol: Llywodraeth Cymru

## Owen Davies

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

### Beth mae'ch gwaith o ddydd i ddydd yn ei gynnwys?

Rwy'n arwain tîm â chyfrifoldebau mewn dau brif faes – materion cyfansoddiadol a pherthnasoedd rhynglywodraethol. Mae materion cyfansoddiadol yn cynnwys rhoi cyngor ar y setliad datganoli ac ar faterion cyfansoddiadol ehangach, gan gynnwys goblygiadau cyfansoddiadol ymadael â'r UE, gan hefyd oruchwylio rôl Llywodraeth Cymru mewn cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer mesurau seneddol. Mae perthnasoedd rhynglywodraethol yn cynnwys arwain ar strwythurau Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (JMC) cyffredinol, gyda chyfrifoldeb penodol dros y JMC (Sesiwn lawn) a JMC (Swyddogion), gan arwain ar faterion sy'n ymwneud â Chyngor Prydain-Iwerddon, a darparu cyngor beunyddiol ar faterion rhynglywodraethol.

### Pa rôl mae datganoli a pherthnasoedd rhynglywodraethol yn eu chwarae yn eich gwaith o ddydd i ddydd?

Mae datganoli a pherthnasoedd rhynglywodraethol wrth wraidd gwaith bob dydd y tîm, fel a nodwyd uchod.

### Gyda phwy ydych chi'n gweithio, ac ar ba faterion?

Ein prif bwyntiau cyswllt yn Llywodraeth y DU yw Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Swyddfa'r Cabinet yw ein prif gyswllt ar faterion rhynglywodraethol, ac yn benodol y JMC, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru yw ein cyswllt ar faterion deddfwriaeth gynradd y DU, ac rydym ym ymdrin â Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar faterion cyfansoddiadol ehangach. Rydym hefyd yn gweithio'n agos iawn ar berthnasoedd rhynglywodraethol gyda Llywodraeth yr Alban a Gweithrediadaeth Gogledd Iwerddon. Er enghraifft, mae'r pedair gweinyddiaeth yn dod at ei gilydd i ffurfio cyd-ysgrifenyddiaeth rithwir i Is-bwyllgor y Gweinidogion.

### Sïon sicr ar gyfer gweithio rhynglywodraethol effeithiol:

1. Perthnasoedd – os ydych chi'n datblygu polisi neu ddarn o ddeddfwriaeth a allai effeithio ar weinyddiaeth arall neu fod o ddiddordeb iddi, mae'n bwysig cymryd yr amser i ddysgu pwy yw'r swyddogion perthnasol a chysylltu â nhw.

2. Cyafthrebu – pan fyddwch wedi nodi'r cydweithwyr cyfatebol perthnasol mewn gweinyddiaethau eraill, rhowch ddiweddariadau iddynt am yr hyn rydych chi'n ei wneud, y cynnydd a wneir gennych, a'r hyn, os unrhywbeth, y gallai fod ei angen arnoch ganddyn nhw. Os oes angen mewnbwn gan weinyddiaeth arall arnoch, sicrhewch eich bod yn cynllunio digon o amser i ymgysylltu'n ystyrlon.

3. Ymddiriedaeth – rydym ni oll yn gweithio i lywodraethau gwahanol, ag iddynt liwiau gwleidyddol gwahanol a gall hynny wneud rhannu gwybodaeth yn anodd, ond nid yw hynny'n atal rhannu materion yn gyfrinachol o reidrwydd, a fel arfer bydd gwneud hynny o fudd i bawb.

# Proffil Ymarferydd Datganoli

## Ymgynghorydd Polisi, Y Tîm Cyngor Strategaeth Ddatganoli a Deddfwriaeth:
## Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Una Wiatrek

Department for Work & Pensions

### Beth mae'ch gwaith o ddydd i ddydd yn ei gynnwys?

Rwy'n gweithio yn y TîmStrategaeth, Cyngor a Deddfwriaeth, canolfan arbenigedd y DWP ar faterion datganoli, gan ddarparu arweiniad a chyngor ymarferol i Swyddfeydd Preifat Gweinidogion, a thimoedd, polisi a rhaglenni gweithredol. Er fy mod i'n arweinydd o ran yr Alban, rwy hefyd yn darparu cyngor cynorthwyol ar faterion datganoli i Ogledd Iwerddon a Chymru pan fydd angen. Ar ddiwrnod arferol, byddaf yn gwneud unrhyw un o'r canlynol: adolygu deddfwriaeth a pholisïau Llywodraeth yr Alban, gan nodi yr effeithiau ar y DWP a sicrhau bod ymgysylltiad dwyffordd cynnar, goruchwylio agenda busnes Senedd yr Alban, gan gynnwys ei phwyllgorau gyda diddordeb Nawdd Cymdeithasol neu gynyddu ymwybyddiaeth o allu datganoli o fewn y DWP drwy weithdai, cyflwyniadau a bwletinau.

### Pa rôl mae datganoli a pherthnasoedd rhynglywodraethol yn eu chwarae yn eich gwaith o ddydd i ddydd?

Mae datganoli a phernasedd rhynglywodraethol wedi'u plethu'n llyfn i'r swydd. Drwy ymgysylltu'n rheolaidd â Swyddfa'r Alban, rwy'n sicrhau y cânt eu diweddaru ar y materion allweddol sy'n wynebu'r DWP a lle y bydd angen ceisio cyngor a mewnbwn ganddynt. Golyga cysylltiadau dwyochrog sefydledig o fewn Llywodraeth yr Alban y gallaf gysylltu swyddogion y DWP â'r bobl iawn. Yn aml, mae angen diwygiadau ôl-ddilynol ar Senedd yr Alban, drwy orchymyn Adran 104, i ddeddfwriaeth sydd wedi'i chadw'n ôl gan Lywodraeth y DU. Yn y DWP, gall y diwygiadau dorri ar draws gwahanol feysydd polisi. Er mwyn hwyluso'r broses, rwy'n arwain ar orchmynion trawsbynciol ac yn eu cydlynu, gan weithio'n agos gyda Swyddfa'r Alban a Llywodraeth yr Alban drwy'r broses.

### Gyda phwy ydych chi'n gweithio, ac ar ba faterion?

Yn ddiweddar, rwyf wedi bod yn gweithio gyda fy nghysylltiadau yn Llywodraeth yr Alban yn adolygu ein Concordat ar y cyd. Mae hyn yn ymarfer hynod ddefnyddiol er mwyn ystyried sut mae gweithio rhynglywodraethol wedi bod yn gweithio ac adnewyddu'r cytundeb ar gyfer y dyfodol. Rwyf hefyd yn cydlynu ac yn cadeirio cyfarfodydd pynciau trawsbynciol gyda thimoedd polisi yn y DWP a Llywodraeth yr Alban i ymchwilio i effeithiau cynigion polisi Llywodraeth yr Alban ar y DWP, ac mae materion diweddar yn cynnwys cydnabod rhyw, cyllido addysg bellach a pholisïau plant.

### Sïon sicr ar gyfer gweithio rhynglywodraethol effeithiol:

1. Meddyliwch yn rhynglywodraethol o'r dechrau un - mae ymgysylltu'n gynnar yn talu ar ei ganfed.

2. Datblygwch a chynnal cysylltiadau dwyochrog cadarnhaol.

3. Os nad ydych chi'n siŵr, gofynnwch. Peidiwch byth â chymryd yn ganiataol na fydd effaith rynglywodraethol wrth lunio polisi.